COFNOD O GYFARFODY CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MERCHER, 20 CHWEFROR 2024 AM 14:30

Yn bresennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Janine Nightingale Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Kelley Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheolaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 296. Canlyniad yr Ymgynghoriad 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' 2024

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniad ymgynghoriad cyllideb 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' 2024 a oedd yn gofyn am farn dinasyddion ar yr hyn y maent yn ei ystyried ddylai fod yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer dyrannu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ac i archwilio'r safbwyntiau hynny yn erbyn cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Eglurodd fod yr ymgynghoriad wedi derbyn 2,839 o ryngweithiadau o gyfuniad o arolygon a gwblhawyd yn dilyn mynychu digwyddiadau ymgysylltu (sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb), ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy Banel Dinasyddion y Cyngor.<br><br>Darparwyd adroddiad ymgynghori llawn yn Atodiad A yr adroddiad.<br><br>Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith sylw ar y pwynt a wnaed ynghylch cadw Treth y Cyngor i'r isafswm posib. Tra bod hyn yn cael ei rannu ymysg yr Aelodau, roedd perygl i allu darparu gwasanaethau pe na bai Treth y Cyngor yn cael ei gosod ar lefel a oedd yn helpu i gydbwyso'r gyllideb.<br><br>Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd sylw ar y pwynt a wnaed am y gwasanaethau mae'r cyhoedd yn fodlon eu torri, gyda'r agenda Sero Net yn un ohonynt. Tra ei fod yn cefnogi barn y cyhoedd, gofynnodd am i'r cyhoedd gadw mewn cof fod gennym hefyd ddyletswydd i ddod yn Sero Net erbyn 2030. Ychwanegodd, wrth symud ymlaen, ein bod angen sicrhau ein bod yn ymgysylltu ymhellach gyda'r cyhoedd.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio ei bod yn bwysig ymgysylltu gydag ysgolion gan nad oedd nifer o bobl ifanc o reidrwydd yn talu Treth y Cyngor eto, ond y byddant yn gallu pleidleisio yn yr etholiadau sydd ar y ffordd.<br><br>Trafododd Aelodau'r Cabinet yr angen i ni barhau i wneud yn well o ran ymgysylltu a sicrhau bod y cyhoedd yn cael dweud eu dweud, yn enwedig yn ystod y broses o bennu'r gyllideb. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet ganlyniadau'r ymgynghoriad fel y manylir yn yr adroddiad ymgynghori atodedig. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Chwefror 2024 |

## 297. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2024-25 i 2027-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn cyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28 i'r Cabinet, a atodwyd yn Atodiad 3 (ynghyd ag atodiadau cysylltiedig), sy'n cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2024-28, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2024-25 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024-25 i 2033-34, ac i argymell bod y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar 28 Chwefror 2024.<br><br>Eglurodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd yn dilyn ac i osod cyfraddau treth y cyngor ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref. Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan gynigion i gyflawni'r amcan hwn ac yn cyfrannu tuag at fod mewn safle ariannol cynaliadwy wrth fynd ymlaen i'r tymor canolig.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd y setliad ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru i fod i gael ei gyhoeddi hyd nes diwedd Chwefror, ac felly bod y gyllideb hon wedi cael ei chynnig ar sail setliad dros dro a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2023. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hadrodd amdanynt i'r Cyngor maes o law; fodd bynnag ni fydd hyn yn effeithio ar gynnig treth y Cyngor.<br><br>Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol, ar ôl derbyn y ddogfen MTFS drafft, y nodwyd bod yna hyblygrwydd o tua £4 miliwn. Cyflwynwyd hyn i'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP) a'r pwyllgorau Archwilio dilynol a cheisiwyd sicrhau mewnbwn ganddynt ar sut i symud ymlaen. Roedd y broses o osod cyllideb wedi bod gyda'r anoddaf erioed, ac yn anffodus roedd angen gwneud toriadau i sicrhau bod y gyllideb yn gytbwys a chan leihau'r risg i ddarparu gwasanaethau a phrisiau'r dreth gyngor.<br><br>Pwysleisiodd yr Aelodo dros Dai, Cynllunio ac Adfywio bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |

| | |
|---|---|
| | wedi ceisio sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu gwarchod rhag y gwaethaf o'r toriadau am flynyddoedd lawer, a bod hyn yn amlwg yn y cynnydd a fu yn nhreth y cyngor dros y blynyddoedd blaenorol. Eglurodd bod treth y cyngor y llynedd wedi ei chodi o werth oedd yn is na chwyddiant, a'r flwyddyn cyn hynny bod treth y cyngor wedi ei rhewi am y flwyddyn. Yn anffodus, nid oedd hyn yn bosib bellach tra bod yn rhaid i doriadau yn y gyllideb gael eu gwneud.<br><br>PENDERFYNWYD: Argymhellodd y Cabinet bod MTFS 2024-25 hyd 2027-28, yn cynnwys cyllideb refeniw 2024-25 a Rhaglen Gyfalaf 2023-23 hyd 2033-34 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Yn benodol, cymeradwyodd y Cabinet y pwyntiau y manylir arnynt yn adran 9.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Chwefror 2024 |

**298. Y Strategaeth Gyfalaf 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad ar Strategaeth Gyfalaf 2024-25 i 2033-34 (Atodiad A), sy'n cynnwys Dangosyddion Materion Ariannol y mae'r Cyngor yn mesur ei hun yn eu herbyn yn ystod y flwyddyn ariannol a'r Datganiad Darpariaeth Refeniw Isafswm Blynyddol 2024-25 (Adran 7 o Atodiad A), cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.<br><br>Eglurodd fod y Strategaeth yn pwysleisio'r pwysau roedd y Cyngor yn ei wynebu ar gyn o bryd. Mae'r pwysau ar y Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys:<br><br>• Cynnydd ym mhris deunyddiau, o ganlyniad i'r cyfraddau chwyddiant uwch sydd yn y DU a thu hwnt ar hyn o bryd, yn ogystal â chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig gyda Brexit;<br><br>• Trafferthion yn y gadwyn gyflenwi yn arwain at brisiau uwch ac oedi wrth gwblhau'r cynllun;<br><br>• Heriau recriwtio o fewn y Cyngor ac o fewn y cwmnïau rydyn ni wedi cytundebu â hwy, gan arwain at gyflogau uwch a chostau cytundebol cyffredinol.<br><br>• Mae gofynion ychwanegol ynghlwm wrth gynlluniau i gyflawni ymrwymiad Sero Net Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys nod o gyflawni sero net ar draws y sector gyhoeddus yng Nghymru, ac a fydd |

| | |
|---|---|
| | yn arwain at newidiadau yn y ffordd mae asedau yn cael eu cynllunio a'u rheoli, a bydd hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith a oedd unrhyw argymhellion pellach wedi dod o'r pwyllgorau archwilio. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid bod awgrym wedi ei wneud y dylai bod y BREP yn gwybod am y Strategaeth Gyfalaf yn y camau cynnar er mwyn gallu bwydo mewn iddi wrth symud ymlaen.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod dros Gyllid, Adnoddau a Chyfraith at y pwynt o dan Egwyddor 4 - sicrhau bod gwerthusiad cyn ac wedi'r prosiect yn cynnwys ymarfer 'gwersi a ddysgwyd. Gofynnodd am i hyn fod ar gael i'w archwilio unwaith yr oedd yn cael ei weithredu.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd at Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) yn yr adroddiad. Gofynnodd am i adroddiad gael ei ddwyn gerbron y Cyngor oedd yn gosod allan yn glir yr anghenion ariannol angenrheidiol er mwyn cadw ein priffyrdd yn ddiogel a'u bod yn cael eu defnyddio gan bawb. Mae gennym ddyletswydd statudol i wneud hyn ac felly mae angen i ni fod yn glir ynghylch sut y byddwn yn gwneud hynny.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ac argymhellodd y dylid cyflwyno Strategaeth Gyfalaf 2024-25 i 2033-34, gan gynnwys Dangosyddion Materion Ariannol 2024-25 i 2033-34 a Datganiad Blynyddol y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) 2024-25 yn Atodiad A i'w cymeradwyo gan y Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Chwefror 2024 |

**299. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) 2024-25, sy'n cynnwys:<br><br>• Strategaeth Benthyca 2024-25<br>• Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys 2024-25<br>• Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 2024-25 i 2026-27. |

<table>
<tr><td></td><td>Tynnodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid sylw at y prif feysydd o fewn Atodiad 1, yn benodol dyled allanol y Cyngor a'r sefyllfa o ran buddsoddi o 30 Medi 2023 ymlaen, crynodeb o fantolen a rhagolygon y Cyngor a'r prif wrthwynebwyr i'r Cyngor eu dilyn yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.<br><br>Gofynnodd Aelodau o'r Cabinet gwestiynau mewn perthynas â benthyciadau a buddsoddiadau ac fe'u hatebwyd mewn manylder gan Brif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio pa sicrwydd oedd yna y byddai buddsoddiadau yn cael eu gwneud gan ddilyn yr arferion gorau. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid bod y Cyngor angen ystyried goblygiadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant buddsoddi, a bod y rhain wedi eu gosod allan yng Nghod CIPFA.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>• Yn ystyried Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024-25; ac<br><br>• Yn argymell bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo ar 28 Chwefror 2024.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Penderfyniad</td><td>20 Chwefror 2024</td></tr>
</table>

**300. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Chwefror 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 17.15